**TGAU**

3010N40-1

**1 MEDI 2021**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 4: TASG 1 STRAEON BYRION

## TASGAU ENGHREIFFTIOL 2023 a 2024

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**CREULONDEB AC ARSWYD**

- Trafodwch sut mae'r ddau awdur yn cyfleu thema Creulondeb ac Arswyd yn y ddwy stori. Cyfeiriwch at y modd mae'r awduron yn defnyddio arddull a ffurf y straeon i gyfleu tyndra yn y straeon a astudiwyd gennych.
- 'Canlyniad creulondeb yw codi arswyd, a'r ddau yn mynd law yn llaw â'i gilydd.' Trafodwch y gosodiad hwn gan nodi pam mae ffurf y straeon a'r arddull a ddefnyddir gan yr awduron yn gymorth i gyfleu'r themâu hyn.
- Sut mae'r digwyddiadau yn y straeon yn effeithio ar deimladau'r cymeriadau yn y ddwy stori a astudiwyd gennych? Cofiwch esbonio sut y mae ffurf ac arddull y ddwy stori yn helpu i gyfleu'r thema/themâu i ni.
- Sut bortreadau a gawn o'r cymeriadau yn y ddwy stori a astudiwyd gennych? Cyfeiriwch at y modd mae'r awdur yn defnyddio arddull i greu'r cymeriadau.
- Trafodwch sut mae ofn yn cael ei gyfleu yn y ddwy stori a astudiwyd gennych. Sut mae'r awduron yn cyfleu hyn? Cyfeiriwch at arddull a ffurf y straeon.
- Sut mae'r awdur yn trafod creulondeb ac arswyd yn y ddwy stori. Pa nodweddion arddull effeithiol a ddefnyddir yn y straeon? Ydy ffurf y straeon yn addas?
- Sut mae'r awdur yn trafod creulondeb ac arswyd yn y ddwy stori. Pa nodweddion arddull effeithiol a ddefnyddir yn y straeon? Ydy ffurf y straeon yn addas?

© WJEC CBAC Cyf. 

**PERTHYNAS**

- Mae'r gallu i gyfathrebu yn anodd i'r cymeriadau yn y ddwy stori a astudiwyd gennych. Sut mae ffurf ac arddull y straeon yn cynorthwyo'r awduron i gyfleu'r thema hon i ni?

- Trafodwch sut mae awduron y ddwy stori yn cyflwyno thema Perthynas i ni. Cyfeiriwch at arddull a ffurf y straeon a chofiwch gymharu'n effeithiol.

- Sut mae'r digwyddiadau yn y ddwy stori yn effeithio ar berthynas y cymeriadau â'i gilydd? Cofiwch gyfeirio at ffurf ac arddull y ddwy stori a chymharu'n effeithiol.

- Yn y ddwy stori a astudiwyd gennych, dangoswch sut mae'r awdur yn trafod thema Perthynas. Pa nodweddion arddull effeithiol a ddefnyddir yn y straeon? Ydy ffurf y straeon yn addas ar gyfer dangos y thema hon?

- Trafodwch y modd mae'r thema Perthynas yn datblygu yn y ddwy stori a ddarllenwyd gennych. Cofiwch sôn am y modd maent yn defnyddio ffurf ac arddull i gyfleu'r thema hon i chi.

- Disgrifiwch y prif gymeriadau yn y straeon. Sut maen nhw'n datblygu? Pa nodweddion arddull y mae'r awduron yn eu defnyddio i ddarlunio'r cymeriadau hyn?

- Cymharwch y modd y datblygir y cymeriadau yn y straeon a astudiwyd gennych. Cofiwch roi sylw penodol i ffurf ac arddull y straeon, gan esbonio sut y mae'r awduron yn eu defnyddio yn gymorth iddynt wrth ddarlunio'u cymeriadau ac wrth gyfleu thema Perthynas.

- Eglurwch sut y mae'r awduron yn y ddwy stori a astudiwyd gennych yn datblygu eu cymeriadau a'r berthynas rhyngddynt. I ba raddau y mae ffurf ac arddull y straeon yn gyfrwng pwysig i gyfleu'r thema hon i chi?